Senedd Cymru

# Protocol rhwng y Comisiynydd Safonau, Senedd Cymru, a'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus

Diweddarwyd ddiwethaf: Mai 2021

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**1.** Pan ddaw yn amlwg i Glerc y Senedd ( 'y Clerc') fod Aelod o'r Senedd wedi torri'r gofynion hynny o dan Reol Sefydlog 2 sy'n ymwneud â chofrestru buddiannau Aelodau, neu y mae'n bosibl ei fod wedi eu torri, bydd yn ddyletswydd ar y Clerc i gyflwyno adroddiad i'r Comisiynydd Safonau am doriad neu doriad posibl ar unwaith. Er mwyn osgoi amheuaeth, ni fydd gan y Clerc unrhyw ddisgresiwn i wneud unrhyw beth ar wahân i gyflwyno adroddiad ar y mater.

**2.** Ni fydd yn orfodol i'r Clerc hysbysu'r Aelod o'r Senedd o dan sylw o'r ffaith bod adroddiad yn cael ei gyflwyno ar y mater. Ar ôl i'r Comisiynydd Safonau gael yr adroddiad, bydd yn ddyletswydd arno i ystyried a yw toriad neu doriad posibl o Rheol Sefydlog 2 yn drosedd o dan Adran 36(7) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

**3.** Os bydd y Comisiynydd yn dod i'r casgliad bod tystiolaeth a allai fod yn dramgwydd troseddol, bydd y Comisiynydd yn cyfeirio'r mater at y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus i ystyried dechrau achos troseddol oni bai bod y Comisiynydd yn fodlon:

i) bod y toriad neu doriad posibl o'r gofynion hynny o dan Reol Sefydlog 2 yn ymwneud â chofrestru buddiannau Aelodau yn un anfwriadol;

ii) na fu unrhyw drafodion ym mhwyllgorau neu sesiynau Cyfarfod Llawn y Senedd, ers y dyddiad pryd y dylai'r mater dan sylw fod wedi cael ei gofrestru, lle y gallai'r mater anghofrestredig fod wedi bod yn berthnasol; ac

iii) na fyddai er budd y cyhoedd i fynd ar drywydd achos troseddol.

**4.** O dan amgylchiadau o'r fath, bydd y Comisiynydd Safonau yn trin yr adroddiad fel cwyn a bydd yn dilyn y gweithdrefnau priodol.

**5.** Er mwyn osgoi amheuaeth, bydd torri agweddau gwahanol ar Reol Sefydlog 2, neu dorri'r un agweddau, dro ar ôl tro yn golygu y bydd y mater yn cael ei gyfeirio i'w ystyried fel achos troseddol.